[illegible]wrt[illegible]

# Adolygiad Gwella Ansawdd

Prifys

Yr Adr

Cyhoeddwy

## Y dull  Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.[1]
Ym mlwyddyn academaidd 2021-22, roedd cwmpas yr Adolygiadau Gwella Ansawdd yn canolbwyntio ar faterion sicrhau ansawdd, yn unol â'r newidiadau a wnaed gan CCAUC i'r gofynion am sicrwydd ansawdd allanol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. O ganlyniad, cyhoeddodd QAA adendwm i Lawlyfr yr Adolygiad Gwella Ansawdd sy'n esbonio'r addasiadau i weithrediad y dull adolygu. Yn 2021-22, mae cyfle i ddarparwyr ymgysylltu â QAA ar wahân mewn perthynas â materion gwella ansawdd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

## Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad Canlyniadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu ar-lein rhwng 21 a 24 Mawrth 2022. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Yr Athro Diane Meehan
- Dr Katie Thirlaway

## Y beirniadaethau am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn bodloni gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.
- Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn bodloni gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd, ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

### Y canmoliaethau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd nifer o ganmoliaethau, sydd wedi eu crynhoi isod.

- Y dangosfwrdd data sy'n darparu amrywiaeth eang o ddata cywir, defnyddiol a hygyrch i'r staff, ac sy'n galluogi i'r Brifysgol fonitro ei pherfformiad yn gynhwysfawr ac yn effeithiol mewn perthynas â safonau ei dyfarniadau ac ansawdd profiad dysgu ei myfyrwyr.
- Yr Hwb Myfyrwyr sy'n darparu pwynt cyswllt a gwybodaeth electronig i'r myfyrwyr sy'n hygyrch ac yn gynhwysfawr, ac mae hyn yn cefnogi eu profiad dysgu'n effeithiol.
- Yr amrywiaeth eang o ddulliau digidol o hyfforddi, addysgu a chefnogi, a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, a'r defnydd effeithiol a wneir ohonynt, sy'n parhau i gyfoethogi profiad y staff a'r myfyrwyr.
- Y gefnogaeth hygyrch a chynhwysfawr a ddarperir, yn arbennig gan y Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol a'r Arweinwyr Timau Partneriaeth, i sefydliadau partner cydweithredol sy'n eu helpu'n effeithiol i ddeall a gweithredu gofynion PCYDDS.
- Y dull cydlynol ac effeithiol o wella cyfleoedd i'r myfyrwyr symud ymlaen o'i phartneriaid cydweithredol a rhyngddynt.

### Y cadarnhadau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd un cadarnhad, sydd wedi ei grynhoi isod.

- Y gwaith y mae'r Coleg Doethurol yn ei wneud i sicrhau bod profiad y myfyrwyr yn gymaradwy ar draws yr amrywiaeth o gampysau a dulliau astudio.

### Yr argymhellion

Mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn gwneud nifer o argymhellion.

- Datblygu system gadarn sy'n sicrhau bod pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig sy'n gwneud neu'n cefnogi gwaith addysgu, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn derbyn hyfforddiant priodol.
- Datblygu dull strategol cydlynol o wella canlyniadau pob rhaglen o ran cyflogadwyedd mewn swyddi proffesiynol sydd angen lefel uchel o sgiliau.
- Cynnwys myfyrwyr sefydliadau partner cydweithredol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau 'addysgu allan' pan fo cyrsiau'n cael eu cau.